

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Tref Y Bala
Nos Iau Mai 2, 2013

Presennol: Y Cynghorwyr Shan Ranson (Maer), Alun Price, Eifion Roberts, John C. Williams, Dilwyn T. Jones, Dorothi Evans, Edith Roberts, Dilys Evans, Ivora Jones, Eluned Jones; y Cynghorydd Sir, Dilwyn Morgan ynghyd a'r Heddlu Lona Davenport ac R. I. Roberts, a'r Clerc.

1. Estynnwyd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod gan y Maer, Miss Shan Ranson
2. Ymddiheuriadau: Y Cyng. Sharon Evans ac Islwyn Pritchard-Jones.
3. Derbyniwyd a chadarnhawyd cywirdeb cofnodion cyfarfod Blynyddol, Mai 10fed, 2012.
4. Nid oedd materion yn codi o'r cofnodion.
5. Cyflwynwyd y cyfrifon am y flwyddyn arinanol 2012/13 ac fe'u cafwyd yn gywir a'u harwyddo.
6. Adroddiad Cyffredinol 2012/13. Roedd y cyn-glerc Mrs Iona Roberts wedi paratoi adroddiad ac roedd pob aelod wedi derbyn copi ymlaen llaw i'w darllen. Arwyddwyd y copi gan y Maer, Shan Ranson.
7. Taflen Presenoldeb y Cynghorwyr. Dangoswyd y daflen ac roedd pawb yn hapus gyda'r presenoldeb.
8. Ethol Maer a Dirprwy. Cyn ethol diolchodd y Maer Shan Ranson i bawb yn gynnes am y fraint o fod yn faer am y ddwy flynedd ddiwethaf. Dywedodd ei bod yn nerfus ar y dechrau ond roedd yn llawer gwell yn ei hail flwyddyn. Diolchodd y cyng. Dilwyn T. Jones i Shan gan ddweud ei body n Faer llawn hyder. Yn dilyn cafwyd trafodaeth helaeth. Nid oedd y dirprwy-faer y Cyng. Ivora Jones eisiau cael ei dyrchafu i'r gadair ond roedd yn fodlon fod yn ddirprwy. Dewisiwyd Mrs Dorothi Evans yn Faer. Diolchodd Dorothi am y fraint a'i body n swydd gyda llawer o gyfrifoldebau. Cytunodd y Cyng. Ivora Jones i fod yn ddirprwy.
9. Pennu Lwfans y Maer. Cytunwyd i drosglwyddo £500 i Gyfrif y Maer.
10. Cynrychiolwyr ar y gwahanol is-bwyllgorau. Roedd y rhestr yn enfawr. Gan nad oedd Antur Penllyn bellach yn bodoli, diddymwyd oddi ar y rhestr. Roedd Dilwyn T. Jones eisiau sefyll i lawr o bwyllgor Ymgynghorol Llyn Tegid a dewiswyd Edith Roberts yn ei le. Gofynnwyd i Sharon Evans i fod am bwyllgor y Grwp Siopau. Roedd Shan Ranson eisiau sefyll i lawr ar bwyllgor Partneriaeth Penllyn a cfelly gofynnwyd i Islwyn Pritchard-Jones i'n cynrychioli. Diddymwyd y Triathlon oddi ar y rhestr. Daeth i'n sylw nad oedd cynrychiolydd gennym ar Gorff Llywodraethol Ysgol y Berwyn. Pasio i ysgrifennu at yr ysgol yn gofyn a oeddynt yn fodlon i'r Cyng. Eifion Roberts ein cynrychioli.
11. Aseiad Risg ac adroddiad blynyddol o systemau ariannol Cyngor Tref Y Bala. Roedd pawb wedi cael copi ac amser i'w edrych drosti. Cymeradwywyd yr adroddiad a'i harwyddo.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc

12. Materion ariannol. Argymell 4ydd person i fod wrth gefn i arwyddo sieciau). Ychwanegu y Maer presennol at y rhestr. Doroithi Evans, Ivora Jones, Shan Ranson, Aeron Jones.
13. Cyfraniadau 137. Roedd rhestr wedi ei argraffu ac roedd y swm o £4800 wedi ei roddi i achosion da.
14. Unrhyw fater arall. Nid oedd unrhy fater arall yn codi.

Arwyddwyd.....Maer

ArwyddwydClerc